## ATODLEN 2

Rheoliad 2(1)

### Manyleb sudd ffrwythau

**1.** Sudd ffrwythau yw'r cynnyrch eplesadwy ond heb ei eplesu a gafwyd o'r rhan fwytadwy o ffrwyth sy'n iach ac aeddfed, yn ffres neu wedi ei breserfio drwy ei oeri neu ei rewi, o un math neu fwy nag un math a gymysgwyd ynghyd, y mae ganddo briodoleddau lliw, cyflas a blas nodweddiadol sudd y ffrwyth y daw ohono.

**2.** Yn ychwanegol at y cynhwysyn a grybwyllir ym mharagraff 1, ac yn ddarostyngedig i gofnodion 4 a 7 yn Atodlen 11, caiff y cynnyrch gynnwys unrhyw rai o'r canlynol—

(a) cynhwysyn ychwanegol awdurdodedig;

(b) sylwedd ychwanegol awdurdodedig;

(c) cyflas, mwydion a chelloedd wedi eu hadfer (neu unrhyw un neu fwy ohonynt) a gafwyd drwy ddull ffisegol addas o'r un rhywogaeth o ffrwyth;

(d) yn achos sudd grawnwin, halwynau asidau tartarig wedi eu hadfer; ac

(e) yn achos sudd tomatos, halen, sbeisys a pherlysiau aromatig.

**3.** Yn achos ffrwythau sitrws, ac eithrio leim, rhaid i'r sudd ffrwythau ddod o'r endocarp.

**4.** Yn achos sudd leim, rhaid i'r sudd ffrwythau ddod o'r endocarp neu'r ffrwyth cyfan.

**5.** Pan fo sudd yn cael ei brosesu o ffrwyth sydd â dincod, hadau a phil, rhaid peidio ag ymgorffori rhannau neu gydrannau dincod, hadau a phil yn y sudd.

**6.** Nid yw paragraff 5 yn gymwys mewn achos lle na ellir tynnu rhannau neu gydrannau dincod, hadau a phil drwy arferion gweithgynhyrchu da.

**7.** Caniateir i sudd ffrwythau gael eu cymysgu â phiwrî ffrwythau wrth gynhyrchu'r sudd ffrwythau.

**8.** Ni chaniateir defnyddio triniaeth, ac eithrio triniaeth awdurdodedig, wrth weithgynhyrchu cynnyrch.

**9.** Rhaid i lefel Brix y cynnyrch fod yr un fath â lefel Brix y sudd fel y'i tynnwyd o'r ffrwyth a rhaid peidio â'i addasu, ac eithrio drwy ei gyfuno â sudd o'r un rhywogaeth o ffrwyth.